



Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau

Mannau Agored

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-2029

Mehefin, 2019

G.B. Edwards BEng (Anrh) CEng FICE
Pennaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau,
Swyddfeydd Mochdre, Conway Road,
Mochdre, Bae Colwyn,
LL28 5AB.

Ffôn. (01492) 574000

Ffacs. (01492) 575199

DRAFT

Mynegai

Crynodeb Gweithredol	2
1 Cyflwyniad	4
2 Conwy.....	6
3 Datganiad Gweithredu	13
4 Y camau nesaf.....	21
5 Adolygiadau ac adroddiadau.....	21
6 Adrodd ar Gynnydd.....	22
7 Atodiadau	24

Cofnod Cyhoeddi ac Adolygu

Teitl y Ddogfen	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-2029
Fersiwn	V1
Statws	Drafft
Enw ffeil	Document2

Adolygu	Nodiadau	Dyddiad

	Llofnod	Enw	Dyddiad
Paratowyd gan		Victoria Currie	28/06/2018
Gwiriwyd gan			
Cymeradwywyd gan			

Rhestr Ffigurau

Ffigur 1 Ffiniau Awdurdodau Lleol Cymru	6
Ffigur 2 Cymariaethau Oed, Conwy, Cymru a Lloegr	7
Ffigur 3 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Conwy.....	8
Ffigur 4 Siart llif ar gyfer Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.....	9
Ffigur 5 Categori o Hawliau Tramwy yng Nghonwy	25
Ffigur 6 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Conwy.....	27
Ffigur 7 Llwybr hygyrch at Lyn Brenig	29
Ffigur 8 Llwybr hygyrch ar Drwyn y Fwch.....	29

Rhestr Tablau

Tabl 1 Amcanion yr Adroddiad.....	5
Tabl 2 Amserlen ar gyfer Adolygiad CGHT Conwy.....	10
Tabl 3 Ffigurau Dangosydd Perfformiad llwybrau Hawdd eu Defnyddio yng Nghonwy.....	31
Tabl 4 Sut mae CGHT Conwy yn cysylltu â Chynlluniau eraill.....	45

Rhestr Termau a Byrfodau

Term	Diffiniad / Ystyr
DPGG	Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau
CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CCGC	Cyngor Cefn Gwlad Cymru
DCGHT	Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
GAMS	Gorchymyn Addasu Map Swyddogol
'Hawdd ei Ddefnyddio'	Llwybr sy'n cyd-fynd â'r meini prawf a bennwyd gan Gyfres Dangosyddion Craidd a Strategol flaenorol Llywodraeth Cymru Cyfeirnod 6.1
Km	Cilometr
BGLI	Bwrdd Gwasanaethau Lleol
GDC	Gorchymyn Digwyddiad Cyfreithiol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
'Rhwydwaith'	Rhwydwaith hawliau tramwy Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2019-2029

ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
BGC	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
HT	Hawliau Tramwy
CGHT	Cynllun Gwella Hawliau Tramwy
APCE	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
SoNaRR	Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol
LIC	Llywodraeth Cymru
RhGMAC	Rhaglen Gwella Mynediad i Arfordir Cymru

Mae degawd wedi bod ers y cyflwynwyd Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Rydym wedi gweld llawer o newidiadau yn y cyfnod hwn, yn arbennig y ffordd y mae pobl yn gweld ymarfer corff a hamdden awyr agored fel prif elfennau i wella iechyd y genedl. Mae teithio o fewn y sir a mynediad at yr awyr agored wedi cael ei gefnogi gan nifer o newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae llwybrau teithio llesol a gyflwynwyd yn ddiweddar yn ychwanegu at well gyfleoedd i'r llwybrau beiciau presennol a llwybrau cerdded yr arfordir. Mae'r argaeledd cynyddol o hawliau tramwy a'u mynediad i bawb yn fantais i iechyd a hamdden yn ein cymuned.

Mae'n wych gweld y twf o grwpiau gwirfoddol yn hyrwyddo ymarfer corff iach yn ogystal ag ymglymiad gwirfoddolwyr sy'n cyfrannu at wella ein hamgylchedd i bawb ei fwynhau. Roedd y gwaith paratoi sylfaenol wedi'i sefydlu yn 2008, felly mae'r cynllun newydd hwn yn gwneud camau positif ymlaen i'r degawd nesaf.

Crynodeb Gweithredol

Yn 2000, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddeddfwriaeth a'i gwnâi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol yng Nghymru gynhyrchu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT). Nod y cynllun oedd disgrifio lefel y mynediad ar y pryd i llwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd ac ardaloedd eraill o le agored, a dangos sut y câi'r mynediad ei wella dros y 10 mlynedd dilynol. Mae'r cyfnod hwnnw'n dod i ben bellach ac mae gofyn i bob Awdurdod Lleol adolygu'r Cynllun gwreiddiol gyda golwg ar ei ddiwygio neu'i adnewyddu am y 10 mlynedd nesaf.

Fel rhan o'r adolygiad, rydym wedi dadansoddi sut y gwnaethom berfformio yn erbyn y targedau yr oeddem wedi'u gosod i'n hunain. Mae'r rhain wedi'u cynnwys fel Atodiad 7 at y ddogfen. Cwblhawyd nifer o'r tasgau dros oes y Cynllun, megis llunio polisïau a gweithdrefnau newydd a rhoi system ar waith i gofnodi ceisiadau gan gwsmeriaid. Ni gychwynwyd ar rai o'r targedau oherwydd diffyg adnoddau ac mae rhai ohonynt ar waith yn barhaus, megis gwella wyneb llwybrau, cydgrynhoi'r Map a'r Datganiad Swyddogol a gwella cyflwr dodrefn. Yn ystod yr adolygiad o Gynllun 2008-18, ystyriasom a oedd y targedau hyn yn dal yn berthnasol ac a fyddai eu hangen fel sail i Gynllun newydd.

Penderfynwyd bod angen adnewyddu'r Cynllun oherwydd bu newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff Hawliau Tramwy Cyhoeddus eu rheoli yng Nghonwy, a byddai'r cynllun ar ei newydd wedd yn adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth a chanllawiau ers y Cynllun diwethaf.

Y cyd-destun wrth ysgrifennu'r cynllun newydd yw bod llai o adnoddau ar gael a bod Llywodraeth Cymru wedi tynnu ei chymorth ariannol yn ôl (grant a ddarparodd £550,434.14 dros y degawd diwethaf). Mae'r Cynllun yn cynnwys Datganiad Gweithredu ac iddo 5 prif nod. O fewn pob nod ceir pynciau a thasgau penodol i helpu'r Cynllun i symud ymlaen.

- Nod 1 – Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio.

- 1.1 Arolygon – cynnal arolygon gan ddefnyddio myfyrwyr a wardeiniaid APCE
- 1.2 Opsynau Lleiaf Cyfyngol – Annog tirfeddianwyr i ddewis yr opsiynau lleiaf cyfyngol
- 1.3 Arolygu Llwybrau a Hyrwyddir – Archwilio'r llwybrau a hyrwyddir gennym yn flynyddol
- 1.4 Clirio Llystyfiant Wyneb – Archwilio potensial grwpiau o wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith hwn.

- Nod 2 – Darparu Map a Datganiad Swyddogol sy'n gyfredol ac ar gael yn eang.

- 2.1 Cydgrynhoi'r Map – Map a Datganiad wedi'u diweddarau i gael eu llunio bob 5 mlynedd
- 2.2 Datgan Blaenoriaethau – Adolygu ein blaenoriaethau a'n polisïau
- 2.3 Cynnal map ar-lein digidol – Archwilio'r potensial i gynnwys rhagor o wybodaeth am y llwybrau

- Nod 3 – Darparu rhwydwaith diogel a hygyrch, wedi'i gydgyssylltu'n well, sy'n addas i bob defnyddiwr.

- 3.1 Teithio llesol – Sicrhau bod llwybrau newydd yn rhesymegol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.
- 3.2 Llwybrau beicio – Ceisio rhagor o arian er mwyn gwella ymylon ffyrdd ar gyfer beicwyr.
- 3.3 Gwelliannau wyneb – Cynnal yr wyneb hyd at safon dderbyniol

3.4 Gwelliannau i'r pontydd – Darparu gwybodaeth lle bydd cau pont yn golygu nad oes mynediad

3.5 Cysylltiadau â Llwybr yr Arfordir – Archwilio cysylltiadau ychwanegol â chymunedau lleol a llwybrau eraill

- Nod 4 – Gwella'r hyrwyddo ar y rhwydwaith, a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono.

4.1 Gwella'r wybodaeth wedi'i thargedu ar y rhyngwyd – Darparu mwy o wybodaeth am lwybrau sy'n cael eu hyrwyddo

4.2 Hyrwyddo teithiau'r Wythnos Gerdded a Cherdded Conwy – Cefnogi grwpiau gwirfoddol yng Nghonwy

- Nod 5 – Annog mwy o ymwneud cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol.

5.1 Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol – Hyrwyddo'r cynllun i Gyngorau Tref a Chymuned

5.2 Grwpiau gwirfoddol – Ystyried datblygu gweithgareddau gwirfoddol.

Caiff y targedau eu dadansoddi ymhellach drwy'r cynlluniau cyflawni blynyddol sydd i'w paratoi. Bydd y Cynlluniau Cyflawni yn cynnwys targedau CAMPUS a fydd yn sail i adroddiad blynyddol. Bydd yr adroddiad blynyddol hwn ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Er ein bod yn cydnabod bod y dyheadau'n llai yn y cynllun hwn nag mewn dogfennau blaenorol, mae'n canolbwyntio ar yr hyn y gellir yn realistig ei gyflawni o ystyried y cyni ariannol sy'n parhau a'r pwysau a deimlir wrth i wahanol flaenoriaethau gystadlu am adnoddau. Mae CBSC yn dal yn uchelgeisiol ac mae'n cydnabod ar bob lefel ar draws yr Awdurdod y dylid cynnal mynediad i ardaloedd agored cyhoeddus a dal i reoli'r rhwydwaith hawliau tramwy yn gadarn. Gall rheoli'r rhwydwaith mewn modd cadarnhaol gyfrannu tuag at agenda Ffyniant i Bawb Llywodraeth Cymru, a'n dyletswyddau economaidd gymdeithasol ehangach fel y maent wedi'u cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

1 Cyflwyniad

1.1 Cylch Gorchwyl

1.1.1 Croeso i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy 2018 – 2028 Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

Mae'r ddogfen hon a'r cynllun gweithredu yn nodi sut byddwn ni'n parhau i wella mynediad i'n rhwydwaith o lwybrau troed, llwybrau ceffylau, cilffyrdd a mannau agored ar gyfer pobl Conwy ac ymwelwyr â'n sir.

Caiff y Cynllun hwn ei adolygu'n llwyr yn 2028.

1.1.2 Beth yw Cynllun Gwella Hawliau Tramwy?

O dan ddarpariaeth adran 60(1) o'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (2000) (DCGHT), roedd yn ofynnol i bob awdurdod priffyrdd lleol gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (CGHT) ar gyfer ei ardal gyfan o fewn pum mlynedd i'r ddeddf ddod i rym. Roedd gofyn i'r awdurdodau, o dan is-adran (2), asesu i ba raddau yr oedd hawliau tramwy lleol yn diwallu anghenion y cyhoedd ar y pryd a'r anghenion tebygol i'r dyfodol; y cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a mathau eraill o adloniant awyr agored a mwynhad o'r ardal a gâi eu darparu gan hawliau tramwy lleol (ac yn arbennig gan lwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig); a pha mor hygyrch yw hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill sydd â phroblemau symud.

Mae adran 60(5) yn diffinio 'hawliau tramwy lleol' fel y llwybrau cyhoeddus, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig, ynghyd â'r ffyrdd a ddangosir ar fapiau a datganiadau swyddogol fel cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sydd ar agor i unrhyw draffig, o fewn ardal pob awdurdod priffyrdd. Mae llwybrau beicio gyda neu heb hawl tramwy ar droed ar wahân i'r rhai ar neu wrth ochr priffordd sy'n gerbyttfordd fetlin yn dod o fewn cwmipas CGHTau.

Mae'n ofynnol yn ôl adran 60(1)(b) fod unrhyw CGHT yn cynnwys datganiad sy'n disgrifio'r camau gweithredu y mae'r awdurdod priffyrdd lleol yn bwriadu'u cymryd i reoli hawliau tramwy lleol, ac i sicrhau gwell rhwydwaith o hawliau tramwy lleol, gan roi sylw arbennig i'r materion a gynhwysir yn yr asesiad.

O dan adran 60(3) a (4) o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol wneud asesiad newydd, adolygu'u CGHT a phenderfynu pa un i'w ddiwygio ai peidio ddim hwyrach na deng mlynedd ar ôl cyhoeddi'u cynllun blaenorol. Er nad yw'n ofyniad statudol, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o gynlluniau diwygiedig hefyd yn cael eu cyhoeddi o fewn y ffrâm amser 10 mlynedd. Bydd disgwyl i'r rhai nad ydynt wedi'u cwblhau o fewn y 10 mlynedd gael eu cyhoeddi ddim mwy na 12 mis ar ôl y penderfyniad i ddiwygio. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu y bydd disgwyl i gynlluniau diwygiedig gael eu cyhoeddi rhwng 2017 a 2019; er bod awdurdodau'n rhydd i'w cynhyrchu'n gynharach os gallant. Pan fyddant wedi cwblhau'r asesiad newydd, mae'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau benderfynu pa un a oes angen diweddarau'u cynllun ac, os felly, mae gofyn iddynt gyhoeddi adroddiad ar eu penderfyniad a'r rhesymau amdano. Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau deddfwriaethol sylweddol a pha adnoddau sydd ar gael, rhagwelir y bydd angen cynllun diwygiedig ar bob awdurdod yng Nghymru.

1.2 Y CGHT hwn

Cafodd y CGHT hwn ei lunio yn dilyn cyfres o asesiadau o'n cynllun blaenorol a pha mor briodol y caiff ei ystyried 10 mlynedd ar ôl ei gyhoeddi.

Mae'r Cynllun hwn yn cynnwys Datganiad Gweithredu newydd.

Mae'r Datganiad Gweithredu wedi'i seilio ar wybodaeth a gasglwyd o bob un o'r Aseidiadau sydd wedi'u cynnwys fel atodiadau at y Cynllun hwn. Rhaid i'r rhan hon o'r Cynllun hefyd nodi cynigion gweithredu'r Awdurdod er mwyn gwella'r rhwydwaith dros ei oes 10 mlynedd. Mae'r Datganiad Gweithredu sy'n cael ei gyflwyno yn awr yn un realistig (yn hytrach na nodi targedau i ymgynraedd atynt), ac yn ceisio cyflawni'r rhwymedigaethau statudol a diwallu anghenion y cyhoedd mor effeithiol â phosibl yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol sylweddol.

Caiff Cynlluniau Cyflawni eu hysgrifennu gyda chymorth Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych. Bydd y Cynlluniau Cyflawni blynyddol yn gosod targedau i weithio tuag at bob un o'r nodau a gaiff eu gosod yn y Cynllun hwn.

1.3 Amcanion yr Adroddiad

Tabl 1 – Amcanion yr Adroddiad

Cyf	Amcan
01	
02	


2 Conwy

2.1 Lleoliad

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i lleoli yng ngogledd Cymru ac mae iddi arwynebedd o 113,000 hectar. Mae wedi'i lleoli rhwng Gwynedd a Sir Ddinbych.

Mae'r trefi strategol allweddol yn cynnwys: Llandudno, Bae Colwyn, Conwy, Cyffordd Llandudno, ac Abergele yng ngogledd y sir. Llanrwst a Betws y Coed yn ne'r sir.

Mae Bwrdeistref Sirol Conwy yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod eang a phentiroedd i ddyffrynnoedd cysgodol, gweundiroedd agored a mynyddoedd geirwon. Mae 38% o'r sir o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.




Ffigur 1 Ffiniau Awdurdodau Lleol Cymru

2.2 Pobl Conwy

Yn ôl cyfrifiad 2011 mae i Conwy boblogaeth o 115,228 gydag 85% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y glannau. Amcangyfrifir bod y ffigur hwn wedi cynyddu i 116,550 erbyn 30 Mehefin 2016 (ONS).

Mae rhaniad gweddol gyfartal rhwng gwrywod a benywod yn byw yng Nghonwy. Yn 2011 roedd 48% (55,749) yn wryw a 52% (59,479) yn fenyw (Cyfrifiad 2011). Mae'r ystadegau allweddol o Gyfrifiad 2011 yn dangos mai pobl ifanc (0-15) oedd 16.6% o'r boblogaeth. Mae hyn yn cymharu â ffigur Cymru gyfan o 18.2%, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a Lloegr o 18.9. Mae'r rhai 16-64 oed i gyfrif am 59% ym Mwrdeistref Sirol Conwy a'r rhai 65 oed a throsodd i gyfrif am 24.4% yn y Sir, sydd lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan o 18.4% a chyfartaledd Cymru a Lloegr o 16.4.


Mae'r gyfran uchel o bobl hŷn yn ein poblogaeth hefyd yn arwain at gyfrannau sylweddol is na chyfartaledd Cymru o blant (0-15 oed) a thrigolion o oedran gweithio (16-65 oed). Yn 2011 roedd 67,940 o bobl o oedran gweithio (16-64) ym Mwrdeistref Sirol Conwy. Mae hyn yn 59% o'r boblogaeth, o'i gymharu â 63.5% yng Nghymru a 64.7% yng Nghymru a Lloegr.



Ffigur 2 Cymariaethau Oed, Conwy, Cymru a Lloegr

2.3 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Sir Conwy

Mae gan Conwy rhwydwaith o 16,000km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffylau, 21km o gilffyrdd cyfyngedig ac 16km o gilffyrdd fel y dangosir ar y cynllun isod.



Ffigur 3 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Conwy


Mae'r llinellau pinc ar y cynllun yn dangos y rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus, mae'r glas yn cynrychioli lwybrau ceffylau ac mae'r brown a'r coch, y naill a'r llall, yn dangos y nifer fach o gilffyrdd cyfyngedig ac anghyfyngedig.

I gael rhagor o wybodaeth, defnyddiwch y ddolen i fynd i'n gwefan.

<http://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Leisure-sport-and-health/Coast-and-Countryside/Public-Rights-of-Way.aspx>

2.4 Methodoleg

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau statudol i'r diben o adolygu'r cynllun presennol ac roedd pob Awdurdod Lleol yn penderfynu wedyn a oedd angen cynllun newydd. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru siart llif ac amserlen ar gyfer y broses (gweler isod).



Ffigur 4 Siart llif ar gyfer Adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

2.5 Ymgynghori

Asesiad desg oedd cam cyntaf yr adolygiad, yn dadansoddi ffeithiau a ffigurau'r hyn sydd wedi'i gyflawni yn ystod oes y CGHT blaenorol. Yn ychwanegol at hynny gwnaethom asesu sut y gallai'r CGHT newydd hwn gyfrannu at nodau'r Cynlluniau Teithio Llesol a Llesiant, ac mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn yr atodiadau. Hefyd, fel rhan o'r paratoi ar gyfer y cynllun hwn, ymgynghorwyd â Grŵp Mynediad Gwirfoddol Conwy i ganfod rhagor am anghenion defnyddwyr llai abl a sut y gallem wella'r ddarpariaeth mynediad ar eu cyfer nhw (gweler yr atodiadau am ragor o wybodaeth).

Cynhyrchwyd amserlen ar gyfer yr adolygiad. Roedd hynny'n sicrhau bod y broses yn dal i symud ar gyflymdra rhesymol a rhoddwyd diweddariadau rheolaidd i Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych. Cyfrannodd y Fforwm at y gwaith o baratoi'r Datganiad Gweithredu. Roedd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) hefyd yn rhan o'r broses ymgynghori gan fod y Parc yn cwrdd traean o Sir Conwy.

Tabl 2 Amserlen ar gyfer Adolygiad CGHT Conwy

Cam	Tasg	Dyddiad
1	Cynnal yr Asesiadau – cwrdd â'r grŵp anabledd (Grŵp Mynediad Gwirfoddol Conwy)	Medi 2017
2	Adrodd ar gasgliadau'r asesiad – trosolwg o'r hyn a gyflawnwyd gan y CGHT 1 ^{af}	Tachwedd 2017
3	Adolygu'r CGHT blaenorol	Ionawr 2018
4	Cyhoeddi CGHT Drafft	Mawrth 2019
5	Cyfnod ymgynghori tri mis	Mehefin 2019
6	Ystyried unrhyw sylwadau a gwrthwynebiadau ac adrodd arnynt	Gorffennaf 2019
7	Adolygu'r CGHT Drafft i adlewyrchu unrhyw sylwadau perthnasol y mae'r Cyngor Sir yn eu cefnogi	Awst 2019
8	Proses Domocrataidd	Medi 2019
9	Cyhoeddi'r CGHT	Hydref 2019
10	Paratoi cynllun cyflawni	Tachwedd 2019

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu cynhyrchu CGHT newydd gan fod llawer o'r tasgau yng Nghynllun 2008-2017 wedi'u cwblhau neu nid ydynt mwyach yn briodol.

2.6 Cyflawni'r CGHT Blaenorol (2008-2017)

2.6.1 Cyffredinol

Roedd CGHT 2008-2017 yn ddogfen a oedd yn nodi targedau i ymgyrraedd atynt ac roedd cyrraedd y targedau yn ddibynnol ar gyllid a lefelau staffio ychwanegol. Cafwyd rhywfaint o gyllid ychwanegol ar ffurf Grant CGHT Llywodraeth Cymru, a gâi ei weinyddu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (Cyngor Cefn Gwlad Cymru cyn hynny) ar ran Llywodraeth Cymru (LIC). Roedd cyfanswm y cyllid a gafodd Conwy mewn arian grant yn £550,434.14 dros y cyfnod o 10 mlynedd.

Bu newid yn strwythur y tîm Hawliau Tramwy ar ddechrau'r CGHT cyntaf hwn. Cafodd y swyddogaethau arolygu a chynnal a chadw, a fu'n cael eu cyflawni gan yr Is-adran Prifffyrdd/Cynnal a Chadw, eu trosglwyddo i dîm Hawliau Tramwy pwrpasol. Er gwaethaf y newidiadau i'r strwythur, mae'r adnoddau wedi bod yn annigonol i gynnal system arolygu reolaidd ar draws y Sir gyfan. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal arolygiadau blynyddol o'n hawliau tramwy o fewn y Parc, sydd i gyfrif am oddeutu traean o'r rhwydwaith. Yn ychwanegol at hyn, parhaodd Conwy i gynnal yr arolwg Hawdd ei Ddefnyddio 5% fel a oedd yn ofynnol cynt gan Lywodraeth Cymru.

Mabwysiadwyd system newydd i gofnodi cwynion a chamau gweithredu yn sgil cynhyrchu'r CGHT. Roedd system y gronfa ddata gyfrifiadurol, Symology, yn golygu bod modd coladu data'n fwy cywir am nifer y cwynion a wnaed, y gweithredwyd arnynt ac a gafodd eu datrys o fewn cyfnod penodedig o amser.

2.6.2 Map a Datganiad Swydddogol

Cynhyrchwyd Datganiad Blaenoriaethau ochr yn ochr â'r Llawlyfr Gweithdrefnau, a chafodd y Cofrestrau o Geisiadau eu rhoi ar y wefan. Mae'r wefan wedi cael ei diweddarau'n ddiweddar ac ailddyluniwyd y dudalen i roi mwy o wybodaeth i ddefnyddwyr.

Cafodd y Map a'r Datganiad Swydddogol eu cydgrynhai a'u hailgyhoeddi yn 2013 ac maent i fod i gael eu cydgrynhai eto yn 2018. Mae cadw'r Map Swydddogol yn gyfredol hefyd yn golygu bod ein Gorchmynion Digwyddiadau Cyfreithiol yn cael eu prosesu mewn modd amserol ac ar hyn o bryd nid oes gennym ond 1 yn disgwyl i gael ei brosesu. Yn yr un modd, rydym mewn sefyllfa gref o ran Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus a Gorchmynion Addasu, gyda 2 a 3, y naill a'r llall, ar gamau cychwynnol y prosesu.

Gyda'r lefel o adnoddau sydd ar gael, ni fu modd inni roi blaenoriaeth i Brosiect Ffyrdd Coll nac Adolygiad Anghysondebau ac ni chychwynnwyd ar y tasgau hyn.

2.6.3 Cynnal a Chadw a Gorfodaeth

Targedau i ymgyrraedd atynt oedd y rhai a bennwyd yn y CGHT ac roeddent yn ddibynnol ar y lefelau staffio uwch a'r adnoddau ychwanegol a gynigiwyd yn y cynllun. I wneud y targedau yn fwy dichonadwy, cafodd yr amserlen ei hymestyn o 10 mlynedd y cynllun i 15 mlynedd. Rhagorwyd ar rai o'r targedau, megis nifer y camfeydd a gafodd eu gosod neu'u hatgyweirio, gwelliannau wyneb a gosod croesfannau newydd ar ffosydd a phontydd. Mae nifer o faterion yn dal heb eu cyflawni, megis arwyddbyst, ffensys a waliau sydd ar goll neu'n ddiffygiol, a chroesfannau ffosydd a phontydd diffygiol.

Cyflawnwyd arolwg o hanner y rhwydwaith yn fras yn 2013-14.

2.6.4 Darpariaethau Mynediad Eraill

Cafodd Llwybr Arfordir Cymru ei agor yn swyddogol ar 5 Mai 2012 rhwng Cas-gwent a Queensferry. Mae'r rhan sy'n rhedeg drwy Gonwy yn dilyn yr arfordir ac mae iddo hefyd ddolen gylchol ar draws Mynydd y Dref (mynydd Conwy). Mae'r gwaith o reoli'r prosiect yn strategol yn cael ei gyflawni erbyn hyn gan swydd sy'n cael ei hariannu gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Caiff gwaith cynnal a chadw ac arolygu ar y llwybr ei gyflawni gan Wardeiniaid Cefn Gwlad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gyda chymorth myfyrwyr ar leoliad, a chaiff ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy CNC.

Cyflogwyd Swyddog Datblygu ar gontract dros dro i archwilio cyfleoedd mynediad eraill fel tasgau o fewn y CGHT. Ymchwiliodd y Swyddog Datblygu i'r posibilrwydd o weithio gyda grwpiau marchogaeth lleol i gynhyrchu Strategaeth Llwybrau Ceffylau. Cafodd strategaeth ei chynhyrchu ar ffurf ddrafft ond am resymau'n ymwneud ag adnoddau a lefel y diddordeb ymysg rhanddeiliaid, cafodd y prosiect hwn ei atal ac ni chafodd ei ddatblygu.

Mae beicio yn weithgaredd poblogaidd yng Nghonwy ac mae'n cwmpasu beicio at ddibenion hamdden a theulu ar hyd promenadau'r arfordir, rasys beicio mynydd yn y coedwigoedd a'r coetiroedd, a phopeth yn y canol.

Drwy brosiect ar raddfa fawr gyda Sir Ddinbych cafodd llwybr cylchol yng Nghonwy wledig ei farchnata a gwnaed gwelliannau i gyflwr wyneb llwybrau. Ymgwymerodd Is-adran Traffig yr Awdurdod a phrosiectau ar raddfa lai i wella mynediad i ysgolion. Mae'r Is-adran Traffig wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar Gynllun Teithio Llesol a fydd yn cyd-fynd â nodau'r cynllun hwn (Gweler atodiad 6).

Cafodd sawl prosiect bach ei gyflawni yn ystod oes y CGHT i wella mynediad i bawb. Mae hyn yn dal yn flaenoriaeth uchel i Gonwy ac mae'n ymddangos yn y Cynllun hwn.

I gael rhagor o fanylion am unrhyw wybodaeth a roddwyd uchod, trowch at atodiadau 4 a 5.

3 Datganiad Gweithredu

Mae'r Datganiad Gweithredu hwn yn cael ei ysgrifennu ar adeg pan mae'r adnoddau sydd gan awdurdodau lleol yn crebachu. Mae'r ansicrwydd o ran cyllidebau dros y 10 mlynedd nesaf a'r ffaith nad yw'r grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gael bellach wedi'u hadlewyrchu yn nodau'r cynllun hwn. Bydd rhoi mwy o bwyslais ar gyfleoedd gwirfoddoli yn cael ei ystyried i helpu i gyflawni gwelliannau realistig. Roedd camau gweithredu'r Datganiad Gweithredu cyntaf yn canolbwyntio ar ganlyniadau ein harolwg 100% o'r rhwydwaith ac ar sicrhau bod llwybrau'n hygyrch. Er inni gyflawni cryn lawer yn ystod y CGHT blaenorol, mae llawer o waith heb ei wneud a bydd angen chwilio am atebion arloesol er mwyn inni allu bwrw ymlaen â hyn.

Mae'r Datganiad Gweithredu wedi'i drefnu o amgylch pum nod, fel a ganlyn:

- Nod 1 - Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio.
- Nod 2 - Darparu Map a Datganiad Swyddogol sy'n gyfredol ac ar gael yn eang.
- Nod 3 - Darparu rhwydwaith diogel a hygyrch, wedi'i gydgyssylltu'n well, sy'n addas i bob defnyddiwr.
- Nod 4 - Gwella'r hyrwyddo ar y rhwydwaith, a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono.
- Nod 5 - Annog mwy o ymwneud cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol.

3.1 Nod 1 - Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio

3.1.1 Arolygon

Wrth baratoi ar gyfer CGHT 2008, cynhaliwyd arolwg 100% o'r rhwydwaith hawliau tramwy. Cychwynnodd arolwg pellach yn 2012 ond dim ond 60% ohono a gwblhawyd. Mae Wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnal arolygiadau o'r hawliau tramwy o fewn ffiniau'r parc (ar wahân i dir CNC) yn rheolaidd. Yng Nghonwy, rydym yn defnyddio wardeiniaid dros dro (myfyrwyr) i arolygu 5% o'r rhwydwaith yn flynyddol. Caiff y ffigur hwn ei ddefnyddio fel dangosydd perfformiad mewnol. Nod yr Awdurdod yw parhau i gynnal arolygon ar y sail bresennol gydol cyfnod y cynllun, gan ddefnyddio myfyrwyr sy'n wardeinio a Wardeiniaid y Parc Cenedlaethol.

3.1.2 Opsiynau lleiaf cyfyngol

Caiff yr opsiynau lleiaf cyfyngol eu dewis ar gyfer croesfannau newydd ar derfynau (bydd y lleoliad a'r dirwedd leol yn dylanwadu ar flaenoriaeth ac ymarferoldeb sefyllfaoedd unigol); fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu hefyd ar i'r tîrfeddiannwr gytuno. Mae costau camfeydd a giatiau yn debyg er y gellid dadlau bod angen llai o gynnal a chadw ar giatiau. Gellid cynnig cymhellion i dirfeddianwyr i annog newid i opsiwn lleiaf cyfyngol, er y byddai hyn yn effeithio ar yr adnoddau sydd ar gael.

Nod yr Awdurdod yw annog tîrfeddianwyr i ddewis yr opsiynau lleiaf cyfyngol lle mae'n briodol, yn enwedig mewn ardaloedd trefol.

3.1.3 Arolygu llwybrau a hyrwyddir

Bu gofyniad ar Awdurdodau Lleol i gynnal arolygiad blynyddol o 5% o'r holl rwydwaith HT, gyda'r canlyniadau'n cael eu cyflwyno fel Dangosydd Perfformiad Gwerth Gorau i Lywodraeth Cymru. Er nad oes gofyniad mwyach i gynhyrchu'r ffigurau hyn yn genedlaethol, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi penderfynu parhau i gynnal yr arolygiadau hyn fel dangosydd lleol. Mae ein partneriaid, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn arolygu'r hawliau tramwy o fewn ffiniau'r Parc. Mae wardeiniaid y Parc wedyn yn trefnu i'r gwaith gael ei wneud neu'n ei basio i Gonwy. Caiff y llwybrau a hyrwyddir eu harolygu'n rheolaidd gan y myfyrwyr sy'n wardeinio. Nod yr Awdurdod yw arolygu'r llwybrau sy'n cael eu hyrwyddo gydol cyfnod y cynllun.

3.1.4 Clirio llystyfiant wyneb

Mae pob ardal o fewn Mannau Agored yn cynnal ei rhaglen clirio llystyfiant ei hun, gyda llwybrau penodol yn cael eu clirio bob blwyddyn. Mae Cyngorau Tref a Chymuned hefyd yn gwneud gwaith clirio llystyfiant yn flynyddol drwy'r Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol, a bydd rhagor o gymunedau'n cael eu hannog i gymryd rhan, sy'n golygu y bydd modd i waith gael ei wneud gan gontractwyr annibynnol lleol. Nod yr Awdurdod yw parhau â'n rhaglen clirio llystyfiant fewnol bresennol gydol cyfnod y cynllun, a bydd yn archwilio'r potensial i ddefnyddio mwy ar wirfoddolwyr i helpu gyda'r gwaith llafurddwys hwn.

Mae'r nod hwn yn cynnal y Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:

-  Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
-  Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
-  Deddf Cydraddoldeb 2010
-  Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2006
-  Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
-  Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
-  Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-2022
-  Un Conwy
-  Strategaeth Hamdden APCE 2012-2017

3.2 Nod 2 - Darparu Map a Datganiad Swyddogol sy'n gyfredol ac ar gael yn eang

3.2.1 Cydgrynhoi'r Map

Mae gan yr Awdurdod Fap a Datganiad Swyddogol sydd wedi cael eu hadolygu a'u hailgyhoeddi 4 gwaith ers sefydlu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 1996. Fe'u cydgrynhowyd ddiwethaf yn 2013 a dylai hynny gael ei wneud eto yn 2018 fel y cynigiwyd yn CGHT 2008. Nod yr Awdurdod yw parhau i gydgrynhoi'r Map a'r Datganiad bob 5 mlynedd, gan sicrhau felly bod y rhai sydd â buddiant yn gweithio gyda gwybodaeth gyfredol.

3.2.2 Datganiad Blaenoriaethau/Polisiâu a Gweithdrefnau

Cynhyrchodd yr Awdurdod Ddatganiad Blaenoriaethau a'n Llyfryn Polisiâu a Gweithdrefnau o fewn blwyddyn gyntaf CGHT 2008. Ers hynny mae'r lefelau staffio a'r adnoddau ariannol wedi crebachu, a bydd ein ffordd o weithio yn cael ei hadolygu. Rydym felly yn bwriadu adolygu ein blaenoriaethau a'n polisiâu.

3.2.3 Cynnal map ar-lein digidol

Er mai'r gofyniad cyfreithiol yw cadw copi papur o'r Map a'r Datganiad Swyddogol, mae disgwyliad y dylai'r holl wybodaeth o'r fath fod ar gael yn ddigidol. Rydym eisoes yn darparu gwybodaeth ar y wefan am hawliau tramwy cyhoeddus a Llwybr Arfordir Gogledd Cymru, a gallai rhagor o wybodaeth gael ei darparu a fyddai'n help i bobl gynllunio'u siwrneiau.

Nod yr Awdurdod yw archwilio'r potensial i ddatblygu hyn.

Mae'r nod hwn yn cynnal y Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:



Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-2022

3.3 Nod 3 - Darparu rhwydwaith diogel a hygyrch, wedi'i gydgyssylltu'n well, sy'n addas i bob defnyddiwr

3.3.1 Teithio llesol

Mae'r Awdurdod yn ymdrechu i sicrhau bod llwybrau newydd sy'n cael eu hychwanegu at y Map a'r Datganiad Swydddogol yn cyd-fynd â nodau Deddf Teithio Llesol (Cymru). Nod yr Awdurdod yw sicrhau bod llwybrau newydd yn rhesymegol ac yn dilyn llinellau a ddymunir, eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u dynodi'n glir.

3.3.2 Llwybrau beicio

Er nad yw llwybrau beicio'n cael eu cofnodi'n uniongyrchol ar y Map a'r Datganiad Swydddogol, gall beicwyr a marchogion ddefnyddio llwybrau ceffylau, cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd. Mae llawer o ymylon ffyrdd a allai fod yn addas i'w defnyddio gan feicwyr a marchogion. Os bydd adnoddau'n caniatáu, nod yr Awdurdod yw dynodi'r ymylon ffyrdd hyn a chanfod a allai arian fod ar gael i'w gwella i bwrpas aml-ddefnydd.

3.3.3 Gwelliannau wyneb

Nod yr Awdurdod yw cynnal wyneb ein hawliau tramwy hyd at safon dderbyniol. Mewn rhai lleoliadau gallai hyn fod yn anodd oherwydd erydu, y dirwedd a defnydd. Mae gwella wyneb llwybrau yn gallu bod yn gostus ac yn aml nid yw'n cyllideb bresennol yn caniatáu inni gyflawni llawer o brosiectau o'r math hwn.

3.3.4 Gwelliannau i'r pontydd

Yn dilyn arolygiadau, mae ein Peirianwyr Strwythurol yn gwneud argymhellion ynglŷn â gwaith newid hen bontydd am rai newydd/atgyweirio pontydd sy'n ofynnol. O dan rai amgylchiadau, ni ellir cyflawni'r gwaith mewn modd amserol ac mae gofyn cau'r llwybr dros dro. Rhaid rhyddhau'r wybodaeth hon i'r cyhoedd fel y gallant gynllunio'u teithiau gyda'r wybodaeth fwyaf cywir. Nod yr Awdurdod yw sicrhau bod wybodaeth am bob achos o gau pontydd dros dro ar gael i'r cyhoedd.

3.3.5 Cysylltiadau â Llwybr yr Arfordir

Dylai Llwybr Arfordir Cymru gael ei gadw yn unol â'r safonau a nodwyd yn y ddogfen 'Quality Standards for the Welsh National Trails and Wales Coast Path'. Ar gyfer 2018/19 mae grant a ariennir 75% ar gael i gynnal a chadw Llwybr yr Arfordir, a grant 100% ar gyfer ailalinio.

Nod yr Awdurdod yw archwilio sut mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu â chymunedau lleol a llwybrau a hyrwyddir, a pha fudd y mae'n ei ddarparu ac yn elwa ohono. Er enghraifft, cael gwybodaeth hyrwyddo ar-lein ar sut mae Llwybr yr Arfordir yn cysylltu â Phenmaenmawr fel pentref ac â Thaith Uwchdir Penmaenamwr, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr y Pererinion, Taith Uwchdir Pensychnant, a Theithiau Uwchdir Huw Tom i Rowen a Llanfairfechan.

Mae'r nod hwn yn cynnal y Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:

-  Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
-  Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
-  Deddf Cydraddoldeb 2010
-  Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2006
-  Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
-  Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
-  Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-2022
-  Un Conwy
-  Strategaeth Hamdden APCE 2012-2017

3.4 Nod 4 - Gwella'r hyrwyddo ar y rhwydwaith, a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono

3.4.1 Gwella'r wybodaeth wedi'i thargeddu ar y rhyngrwyd

Ar ôl ymgynghori â Grŵp Mynediad Conwy, cafodd yr Awdurdod wybod y gallai gwybodaeth fwy penodol am lwybrau fod yn hynod o fuddiol i ddefnyddwyr sydd ag anawsterau symud. Gallai'r wybodaeth eu helpu i benderfynu a yw'r llwybr yn hygyrch iddyn nhw a'u hanghenion. Ar hyn o bryd nid oes gennym gofnod o'r llwybrau sy'n disgrifio faint o esgyn sydd arnynt neu'u cyfyngiadau. Nod yr Awdurdod yw datblygu gwybodaeth o'r fath ar gyfer y llwybrau a hyrwyddir dros oes y cynllun.

3.4.2 Hyrwyddo teithiau'r Wythnos Gerdded a Cherdded Conwy

Sefydlwyd Wythnos Gerdded Conwy yn 2003 a chynyddodd yn fawr yn ei phoblogrwydd dros y blynyddoedd dilynol. Yn 2012 sefydlwyd y grŵp arweinwyr teithiau gwirfoddol, Cerdded Conwy (www.cerddedconwy.org), i ddisodli Wythnos Gerdded Conwy, i ateb y galw cynyddol am deithiau, ac i seilio'r prosiect yn y gymuned a'i wneud yn fwy cynaliadwy. Erbyn hyn mae'r grŵp yn cynnig penwythnosau cerdded gydol y flwyddyn, yn cynnig hyfforddiant i arweinwyr teithiau ac yn cael ei gefnogi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Gwnaeth Cerdded Conwy hefyd helpu i sefydlu Gŵyl Gerdded Trefriw, sy'n llwyddiannus iawn, ac mae'n gweithio ar gysylltiadau cryfach gyda theithiau iechedd a manteision cerdded ar gyfer iechedd meddwl. Mae'r grŵp yn agored i helpu a gweithio ar brosiectau yn y dyfodol. Nod yr Awdurdod yw cefnogi a hwyluso'r mudiadau cerdded gwirfoddol sy'n gweithio yng Nghonwy.

Mae'r nod hwn yn cynnal y Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:

-  Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
-  Deddf Cydraddoldeb 2010
-  Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
-  Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-2022
-  Un Conwy
-  Strategaeth Hamdden APCE 2012-2017

3.5 Nod 5 - Annog mwy o ymwneud cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol

- 5.1 Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol – Hyrwyddo'r cynllun i Gyngorau Tref a Chymuned
- 5.2 Grwpiau gwirfoddol – Ystyried datblygu gweithgareddau gwirfoddol.

3.5.1 Cynnal a Chadw Cymunedol

Mae llwyddiant y Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol yn amrywio'n fawr ledled y sir. Mae rhai Cyngorau Cymuned/Tref yn ymroi'n llwyr ond cyfyngedig yw ymwneud eraill. Nid yw mwyafrif y Cyngorau wedi ymuno â'r cynllun. Mae'r cynllun yn galluogi Cyngorau i flaenoriaethu mân waith yn eu cymuned a datrys materion ar lefel leol, ac maent yn cael eu had-dalu am y gwaith a wneir. Byddai mwy o ymwneud â'r cynllun yn galluogi CBSC i ganolbwyntio ar faterion ar raddfa fwy. Nod yr Awdurdod yw hyrwyddo'r Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol i Gyngorau Tref a Chymuned.

3.5.2 Grwpiau gwirfoddol

Ar hyn o bryd mae gan Gonwy un grŵp gwirfoddol sy'n gwneud gwaith ar y rhwydwaith HT. Cafodd y grŵp hwn ei ffurfio fel gweithgor o Gerddwyr Dyffryn Conwy. Maent wedi gwneud gwaith rhagorol, megis clirio llystyfiant, gosod camfeydd a grisiau a gosod cyfeirbwyntiau. Mae hwn yn faes arbenigedd y dylid ei annog a'i gynyddu dros y blynyddoedd i ddod. Nod yr Awdurdod yw archwilio sut yn realistig y gellir annog a datblygu'r defnydd o wirfoddolwyr.

Mae'r nod hwn yn cynnal y Deddfau a'r Cynlluniau canlynol:

-  Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
-  Deddf Cydraddoldeb 2010
-  Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
-  Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2017-2022
-  Un Conwy
-  Strategaeth Hamdden APCE 2012-2017

4 Y camau nesaf

Y cam nesaf yw penderfynu pa gamau i'w cymryd i gyrraedd y nodau. Gwneir hyn drwy gynlluniau cyflawni blynyddol.

Caiff y cynlluniau hyn eu hysgrifennu yn unol â'r Canllawiau Statudol a chyda chynghor ac arweiniad gan Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych a Fforwm Mynediad Lleol Gogledd Eryri. Mae'r fforymau hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o wahanol grwpiau buddiant megis tîrfeiddianwyr, cerddwyr, marchogion a beicwyr o Gonwy ac awdurdodau cyfagos Gwynedd a Sir Ddinbych.

Bydd y grwpiau hyn hefyd yn help i wneud yn siŵr fod pobl mewn cymunedau yn gallu parhau i gyfrannu at benderfyniadau ac y byddir yn gwrandao ar eu barn.

5 Adolygiadau ac adroddiadau

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r cynnydd a wneir yng nghyswllt pob nod yn flynyddol ac yn cynhyrchu adroddiad blynyddol a fydd ar gael ar y wefan i ddangos y cynnydd. Mae'r templed a fwriedir ar gyfer adroddiadau i'w weld ar y dudalen nesaf.

6 Adrodd ar Gynnydd

Bob blwyddyn bydd yr Awdurdod yn cynhyrchu adroddiad yn dweud pa gynnydd sydd wedi'i wneud ar bob tasg.

6.1 Nod 1 - Sicrhau bod y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio.

Tasg Rhif	Enw'r Dasg	Cam	Sylwadau
1.1	Arolygon		
1.2	Opsiynau Lleiaf Cyfyngol		
1.3	Arolygu Llwybrau a Hyrwyddir		
1.4	Clirio Llystyfiant Wyneb		

6.2 Nod 2 - Darparu Map a Datganiad Swydddogol sy'n gyfredol ac ar gael yn eang.

Tasg Rhif	Enw'r Dasg	Cam	Sylwadau
2.1	Cydgrynhoi'r Map		
2.2	Datganiad Blaenoriaethau		
2.3	Cynnal map ar-lein digidol (adrodd ar nifer y newidiadau bob blwyddyn)		

6.3 Nod 3 - Darparu rhwydwaith diogel a hygyrch, wedi'i gydgyssylltu'n well, sy'n addas i bob defnyddiwr.

Tasg Rhif	Enw'r Dasg	Cam	Sylwadau
3.1	Teithio llesol		
3.2	Llwybrau beicio		
3.3	Gwelliannau wyneb		
3.4	Gwelliannau i'r pontydd		
3.5	Cysylltiadau â Llwybr yr Arfordir		

6.4 Nod 4 - Gwella'r hyrwyddo ar y rhwydwaith, a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono.

Tasg Rhif	Enw'r Dasg	Cam	Sylwadau
4.1	Gwella'r wybodaeth wedi'i thargedu ar y rhyngrwyd		

4.2	Hyrwyddo'r Gerdded a Conwy	Wythnos Cerdded		
-----	----------------------------------	--------------------	--	--


6.5 Nod 5 - Annog mwy o ymwneud cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol.

Tasg Rhif	Enw'r Dasg	Cam	Sylwadau
5.1	Cynllun Cynnal a Chadw Cymunedol		
5.2	Grwpiau gwirfoddol		

7 Atodiadau

7.1 ANGHENION Y PRESENNOL A'R DYFODOL

Ar hyn o bryd mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy 1600km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffylau, 21km o gilffyrdd cyfyngedig ac 16km o gilffyrdd o fewn ei ffiniau. Mae'r llwybrau hyn wedi'u cofnodi ar y Map a'r Datganiad Swyddogol.



Ffigur 5 Categori o Hawliau Tramwy yng Nghonwy

Mae'n bosibl fod llawer rhagor o lwybrau y mae'r cyhoedd yn eu defnyddio, nad oes gennym gofnodion ohonynt, ac, os gwneir cais, ymchwilir i'r rhain drwy'r broses Gorchymyn Addasu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) yn delio ag un Gorchymyn Addasu Map Swyddogol ar hyn o bryd ac mae un arall yn disgwyl i gael ei brosesu. Mae hyn yn rhoi Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy mewn sefyllfa gref o ran dilysrwydd a chywirdeb y Map Swyddogol.

Mae'r rhwydwaith mawr o lwybrau troed yn yr ardal yn adlewyrchu'r wybodaeth o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014 a ganfu mai cerdded oedd y math mwyaf poblogaidd o fynediad. Nid oedd gyrru oddi ar y ffordd a marchogaeth mor boblogaidd ymysg y rhai a arolygwyd.

Felly, mae llawer o ffocws Conwy ar y rhai sy'n cerdded. Mae Llwybr Arfordir Cymru (a ddefnyddiodd lwybrau troed a phromenadau a oedd yn bodoli'n barod) i gerddwyr yn bennaf ac mae modd i feicwyr hefyd ddefnyddio rhai rhannau. Mae'r gwyliau a'r rhaglenni cerdded a gefnogwyd gan CBSC wedi bod ar gyfer cerddwyr gan mwyaf ac felly hefyd y wybodaeth i'r rhai sy'n ymweld â'r Gwarchodfeydd Natur Lleol.

Mae'r rhwydwaith di-drefn o lwybrau ceffylau, cilffyrdd a chilffyrdd cyfyngedig yn ei gwneud yn anodd creu llwybrau cylchol i grwpiau buddiant eraill heb fynd i gost enfawr.

Sefydlwyd prosiect ar ôl cyhoeddi'r CGHT cyfredol i geisio gwella'r rhwydwaith marchogaeth presennol; fodd bynnag, cafodd y prosiect ei ddirwyn i ben oherwydd diffyg diddordeb gan y grwpiau defnyddwyr. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn hapus â'r lefel bresennol o fynediad.

Mae gyrru oddi ar y ffordd yn dod yn fwy poblogaidd yng Nghymru, fel y mae'r nifer cynyddol o geisiadau am wybodaeth gan grwpiau defnyddwyr yn yr ardal yn tystio. Cyfyngir defnyddio

cerbydau oddi ar y ffordd i 16km o gilffyrdd, ynghyd â 107km o ffyrdd diddosbarth sy'n cael eu galw'n 'lonydd gwyrdd.'

Wrth symud ymlaen, mae'n briodol i Gonwy gydnabod demograffeg y boblogaeth a chynllunio gwaith i annog mwy o fynediad ar gyfer pobl hŷn a'r rhai ag anabledd.

Yn ôl arolwg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2015, roedd bron i 1/3 o drigolion Conwy dros 65 oed ar y pryd. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Y nifer o bobl y cofnodwyd bod ganddynt salwch cyfyngus hirdymor yng Nghonwy yn ystod cyfrifiad 2011 oedd 13,896. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys salwch am resymau iechyd, oed neu anabledd ac maent yn amrywio o gyfyngu'n helaeth ar weithgareddau bob dydd i beidio â chyfyngu ar weithgarwch dyddiol. Mae'r tabl isod yn dangos sut mae hyn yn cymharu â Chymru, ac â Chymru a Lloegr gyda'i gilydd.


		Conwy	Cymru	Cymru a Lloegr
Pawb		115,228	3,063,456	56,075,912
Cyfyngu'n helaeth ar weithgareddau o ddydd i ddydd	13,896	12.1%	11.9%	8.5%
Cyfyngu ychydig ar weithgareddau o ddydd i ddydd	14,019	12.2%	10.8%	9.4%
Ddim yn cyfyngu ar weithgareddau o ddydd i ddydd	87,313	75.8%	77.3%	82.1%

Mae'r ffigurau hyn yn bwysig wrth ddadansoddi Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014, a ganfu mai'r rhwystrau ar hyn o bryd rhag i bobl brofi'r awyr agored oedd anabledd corfforol (29%), materion iechyd (21%), henaint (14%) a diffyg amser (13%).

Cofnododd yr arolwg mai'r manau mwyaf poblogaidd i ymweld â nhw oedd pentrefi (80%), parciau (77%) a thraethau (77%). Yn llai poblogaidd roedd bryniau/mynyddoedd/gweundiroedd (66%), tir fferm (56%) a thir arfordirol (54%) ond mewn arolwg ar draws Cymru gyfan ni fyddai'r lleoliadau hyn ar gael i'r holl ymatebwyr. Mae Llwybr Arfordir Cymru sy'n croesi ffin ogleddol y sir yn boblogaidd iawn gyda phobl leol ac ymwelwyr ac mae cysylltiadau o'r Llwybr i bentrefi a thraethau.

7.2 CYFLEOEDD AR GYFER YMARFER CORFF A HAMDDEN

Mae gan Gonwy rwydwaith o 16,000km o lwybrau troed, 98km o lwybrau ceffylau, 21km o gilffyrdd cyfyngedig ac 16km o gilffyrdd fel y dangosir ar y cynllun isod.



Ffigur 6 Rhwydwaith Hawliau Tramwy Conwy

Mae'r llinellau pinc ar y cynllun yn dangos y rhwydwaith o lwybrau cyhoeddus, mae'r glas yn cynrychioli llwybrau ceffylau ac mae'r brown a'r coch, y naill a'r llall, yn dangos y nifer fach o gilffyrdd cyfyngedig ac anghyfyngedig.

Mae'n amlwg fod llawer mwy o gyfleoedd i gerddwyr sy'n adlewyrchu'r ganran uchel o ddefnyddwyr a nodwyd yn Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014 (dywedodd 85% o'r rhai a arolygwyd mai cerdded oedd y prif weithgaredd). Mae llai o ddarpariaeth ar gael i'r rhai sy'n marchogaeth, a gofnododd lefel gweithgarwch o 3%, ac roedd gyrru ar y ffordd wedi cynyddu mymryn i 5% rhwng arolwg 2011 ac un 2014.

Efallai fod y ffigur gyrru oddi ar y ffordd yn gamarweiniol, oherwydd mae'n ymddangos yn ôl y sôn fod y grwpiau defnyddwyr hyn yn tueddu i groesi'r ffin o Loegr i gymryd rhan yn y gweithgaredd, ac nad ydynt yn cael eu cynnwys yn arolwg Cymru.

Caiff Hawliau Tramwy Cyhoeddus eu defnyddio ar yr un pryd ar gyfer ymarfer corff a hamdden, ac mae pob llwybr yn werthfawr mewn ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, mae Llwybr Gogledd Cymru a Llwybr Arfordir Cymru yn gorgyffwrdd mewn mannau ac yn croesi ymyl

ogleddol y sir a chânt eu hyrwyddo fel llwybrau troed pellter hir; fodd bynnag, mae rhannau mawr o'r llwybrau, mwy ar Lwybr Arfordir Cymru, ar gael i feicwyr a defnyddir darnau llai i gyrchu at siopau, ysgolion ac atyniadau twristiaeth. Mae Llwybr Pererinion Gogledd Cymru yn croesi'r ddau lwybr uchod ac mae yntau hefyd yn llwybr pellter hir rhwng Basingwerk ac Ynys Enlli. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn hyrwyddo llwybrau byrrach drwy'r sir, yn cynnwys Llwybr Hiraethog a Llwybr Huw Tom.

Ymarfer corff

At ddibenion y ddogfen hon diffinnir ymarfer corff fel
gweithgarwch corfforol i wella neu gynnal iechyd a ffitrwydd.

O'r rhai a holwyd yn Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014, dywedodd 30% yr hoffent gerdded yn amlach a dangosodd 8% ddiddordeb mewn mwy o feicio oddi ar y ffordd.

Ymarfer corff oedd y prif gymhelliad i fanteisio ar yr awyr agored yn ôl arolwg 2014.

Mae cerdded yn ffordd syml, hawdd a rhad ac am ddim o wneud mwy yn gorfforol ac fe'i hyrwyddir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cymryd rhan weithgar yn annog hyn, gyda Theithiau Hwyl o dan arweiniad arweinydd teithiau profiadol yn cael eu hysbysebu. Mae'r llwybrau'n cymryd llai nag awr i'w cwblhau ac maent ar gael i bobl o bob lefel o ffitrwydd. Yn ôl Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014, y rhai sy'n llai tebygol o ddefnyddio hawliau tramwy cyhoeddus yw'r rhai â phroblemau iechyd neu anabledau tymor hir.

Mae'r grŵp cerdded cymunedol, Cerdded Conwy, (gyda chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yn cynnig hyfforddiant i arweinwyr gwirfoddol i gyflwyno rhaglenni misol o deithiau y gall unrhyw un ddod arnynt. Mae poblogrwydd y teithiau yn tystio i fanteision cerdded – yn gymdeithasol ac o ran iechyd corfforol a meddyliol – i'r arweinwyr a'r cerddwyr. Mae'r grŵp yn ymchwilio i ddatblygu cysylltiadau gydag grwpiau iechyd meddwl fel Mind er mwyn i ragor o bobl fwynhau manteision cerdded.

Hamdden

At ddibenion y ddogfen hon diffinnir hamdden fel
gweithgareddau hamdden i'r diben o gael mwynhad neu bleser.

Mae Conwy yn gyrchfan i dwristiaid sy'n denu pobl ar gyfer amryw o weithgareddau, yn amrywio o feicio mynydd, cerdded ceunentydd, gwyllo bywyd gwyllt a gyrru oddi ar y ffordd. Ceir yng Nghonwy ardaloedd sydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yn ogystal â Pharc Gwledig y Gogarth a sawl Gwarchodfa Natur Leol. Gyda 73km o arfordir ac 13 o draethau, mae Conwy yn boblogaidd hefyd gyda'r rhai sy'n mwynhau chwaraeon dŵr â'r rhai sy'n hoffi treulio amser ar y traeth.

Dangosodd Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014 mai coetiroedd, parciau a thraethau oedd y cyrchfannau mwyaf poblogaidd, a bod coetiroedd a thraethau wedi cynyddu yn eu poblogrwydd ers yr arolwg blaenorol yn 2011.

7.2.1 Grŵp Mynediad Conwy

Dywedodd Grŵp Mynediad Conwy, sy'n cynrychioli trigolion â phroblemau iechyd neu anabledd hirdymor yn y sir, fod safon yr hawliau tramwy cyhoeddus yn wael. Roeddent yn awgrymu bod diffyg cynnal a chadw a chyflwr gwael wyneb llwybrau yn atal pobl rhag cyrchu i gefn gwlad. Canmolodd y grŵp y cyfleusterau a'r amodau mewn parciau lleol ond canfu nad oedd unrhyw ddarpariaeth i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn i gael mynediad i draethau. Derbyniwyd bod y system atal lifogydd ar hyd mwyafrif y traethau yn ei gwneud yn anodd gwella mynediad ond byddai modd gwella'r rhwystrau ar ffurf paneli pren ar bromenadau. Roedd aelodau'r grŵp yn ffafrio siwrneiau byrrach (yn bennaf ar sail pa mor hir y mae'r batri mewn cadeiriau olwyn yn para).

Y prif welliannau yr oedd y grŵp am eu gweld oedd gwybodaeth am lwybrau y gallent eu defnyddio, pa mor serth yw'r llwybrau a beth yw cyflwr wyneb y llwybrau. Pe bai'r wybodaeth hon ar gael ar y wefan, gallai defnyddwyr benderfynu ar sail gwybodaeth pa un i'w defnyddio. Dangoswyd bod y ddarpariaeth gwybodaeth yn ddiffygiol gan nad oedd rhai o aelodau'r grŵp yn gwybod am y gwelliannau i'r llwybrau ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn ar Drwyn y Fuwch neu ger Cronfa Ddŵr Alwen.



Ffigur 7 Llwybr hygyrch ar Drwyn y Fuwch



Ffigur 8 Llwybr hygyrch at Lyn Brenig

7.2.2 Sut gall y CGHT helpu?

Y pethau na ellir gwneud dim ynglŷn â nhw i wella cyfranogiad oedd y diffyg amser sydd gan bobl a thywydd gwael, a nodwyd fel y prif rwystrau rhag cymryd rhan mewn hamdden awyr agored.

Y meysydd y mae modd mynd i'r afael â nhw os ydynt yn cael eu hystyried yn broblem yw gwelliannau o ran gwybodaeth a seilwaith.

Ydy aelodau'r cyhoedd yn gwybod am y gwahanol grwpiau i'w helpu i fynd allan i'r awyr agored, megis Teithiau Hwyl a Cerdded Conwy?

Ydyn ni'n gwneud ein gwybodaeth yn hwylus i'r defnyddiwr ac yn hygyrch? Bellach mae taflenni i'w lawrlwytho ar y wefan, ynghyd â chopi digidol o'r Map Swyddogol.

Ydy wyneb y llwybrau'n cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol ar gyfer y math o ddefnyddiwr?

Ydy'r dodrefn lleiaf cyfyngol yn cael ei ddefnyddio ar lwybrau?

Ydyn ni'n rhoi sylw i broblemau y rhoddir gwybod amdanynt mewn modd amserol? Mae cyflwyno system Symology wedi gwella'r cofnodi a'r monitro ar broblemau. Mae gan y cyhoedd bellach y cyfleuster i roi gwybodaeth am broblemau a dangos y lleoliad ar y wefan.

A oes cysylltiadau digonol rhwng pentrefi a'r llwybrau strategol?

A oes llwybrau cylchol byr o fewn ardaloedd trefol?

A yw'r llwybrau i ysgolion, parciau a thraethau yn addas i deuluoedd ifanc?

7.3 HYGyrCHEDD Y RHwyDWAITH

Wrth baratoi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy 2008-17 cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC) arolwg 100% o'r rhwydwaith HT. Dangosodd hwn mai 21.73% oedd y ganran o'r rhwydwaith a oedd ar agor ac mewn cyflwr addas i'w ddefnyddio – y lefel isaf yng Nghymru.

Mae'r tabl isod yn dangos y ganran o lwybrau yn Sir Conwy a oedd yn 'Hawdd eu Defnyddio' yn ôl yr arolwg blynyddol 5 y cant. Bob blwyddyn caiff hap ddetholiad o lwybrau, sy'n 5 y cant o leiaf o holl hyd y rhwydwaith, ei arolygu i ganfod a oes arwyddbyst a dodrefn priodol arnynt. Mae'r canlyniadau'n amrywio o 49.3% yn 2008-09 hyd at 63.3% yn 2017-18, gydag uchafbwynt o 72.4% yn 2013-14.

Oherwydd ailstrwythuro mewnol ac adnoddau cyfyngedig, ni chynhaliwyd arolygon yn 2014 na 2015. Cynhaliwyd yr arolwg gan Wardeiniaid Cefn Gwlad (myfyrwyr) yn 2016-17 a byddant yn parhau i goladu'r ffigurau hyn yn flynyddol i'r dyfodol.

Nid yw cynnal yr arolygon hyn yn ofyniad statudol mwyach, ond bydd CBSC yn parhau i gasglu'r wybodaeth at ddibenion perfformiad mewnol.

Tabl 3 Ffigurau Dangosydd Perfformiad llwybrau Hawdd eu Defnyddio yng Nghonwy

Blwyddyn	Canlyniad
2008-09	49.3%
2009-10	57.0%
2010-11	72.2%
2011-12	71.0%
2012-13	69.4%
2013-14	72.4%
2014-15	Dim arolygon
2015-16	Dim arolygon
2016-17	63.3%
2017-18	86.9%

Ethos y CGHT presennol oedd bod yn fwy rhagweithiol o ran datrys problemau ar y rhwydwaith, yn hytrach na dim ond ymateb i gwynion. Mae'r cynllun cyfredol hefyd yn argymhell cynnydd enfawr mewn adnoddau fel bod modd gwireddu dyheadau'r cynllun.

7.4 Dadansoddi CGHT Conwy 2008-2017

Rhif y Dasg	Tasg	Cynnydd	CGHT Cyfredol
1.1	Adolygu Strwythur y Tîm H.T.	Cwblhawyd	Angen ei ailysgrifennu i adlewyrchu'r ad-drefnu mewnol diweddar
1.2	Llunio Llawlyfr Gweithdrefnau	Cwblhawyd	Angen ei adolygu a'i ddiweddarau
1.3	Cofnodi Ceisiadau i Weithredu	Cwblhawyd	Cofnodasom 1565 o geisiadau i weithredu rhwng 2008 a 2017.
1.4	System o arolygiadau rheolaidd	Cychwynnwyd yn rhannol	Mae APCE yn cynnal arolygiadau rheolaidd o'r HT. Nid ydym ni.
2.1	Datganiad o Flaenoriaethau	Cwblhawyd	Mae'r datganiad blaenoriaethau wedi'i gymeradwyo ac mae wedi'i gynnwys yn y Llawlyfr Polisiau a Gweithdrefnau
2.2	Cofrestr o Geisiadau	Cwblhawyd	Mae'r cofrestrau ar gael ar-lein a chânt eu diweddarau pan ddaw ceisiadau newydd i law
2.3	Clirio'r ôl-groniad o geisiadau	Yn parhau	GAMSion wedi'u Cwblhau 2 Cyfeiriwyd at yr arolygiaeth gynllunio 2016/17 x 1
2.4	Clirio'r ôl-groniad o GDCion	Yn parhau	Nid oes ôl-groniad Mae 4 GDC wedi'i wneud 4 Gorchymyn Cydgrynhoi 1 i'w gyflawni nesaf 2018
2.5	Adolygu'r Anghysonderau ar y Map Swydddogol	Heb gychwyn ar hyn	Nid oes unrhyw waith pellach wedi'i wneud ar y dasg hon
2.6	Mapiau wedi'u Cydgrynhoi	Cwblhawyd	Mae'r cydgrynhoi nesaf ar y Map Swydddogol i gael ei wneud yn ystod 2018.
2.7	Ymchwilio i ffyrdd coll	Heb gychwyn ar hyn	Fel y dywedwyd yn y CGHT, blaenoriaeth isel sydd i'r dasg hon ac mae cychwyn arni'n ddibynol ar staff ychwanegol
2.8	Prosesu Gorchmynion Llwybrau Cyhoeddus	Yn parhau	Dargyfeirio 6 Dileu 1 Creu 9
3.1	Arwyddion ar HT	Yn parhau	Roedd 915 o arwyddbyst ar goll a 268 yn ddiffygiol yn ystod arolwg 2005. Dywedasom y byddem yn gosod 570 arwydd terfyn rhwng 2008 a 2017. 121 a osodwyd mewn gwirionedd. Roedd angen newid 268 o arwyddion terfyn diffygiol a chafodd 61 o'r rhain eu newid.
3.2	Cyfeirbwyntiau	Yn parhau	Ni chofnodwyd nifer penodol o gyfeirbwyntiau yn ystod arolwg 2005. Nid oes gennym gofnod o nifer y cyfeirbwyntiau sydd wedi'u gosod. Mae nifer

			fawr o ddisgiau cyfeirbwyntio wedi'u darparu i bartïon eraill.
3.3	Atgyweirio wyneb llwybrau	Yn parhau	Cofnodwyd 108 achos o ddifrod i wyneb llwybrau yn ystod arolwg 2005. Cyflawnwyd 130 o welliannau i wyneb HT.
3.4	Pontydd mewn cyflwr diogel	Yn parhau	Roedd 69 pont ar goll ac angen atgyweirio 137 yn ystod arolwg 2005. Dywedasom y byddem yn gosod 16 ac yn atgyweirio 134 pont a chroesfannau ffosydd rhwng 2007-17. Gosodwyd 38 strwythur newydd ac atgyweiriwyd 47.
3.5	Cynnal dodrefn ar y llwybrau	Yn parhau	Cofnodwyd 1381 o gatiu wedi torri a 317 o gamfeydd wedi torri. Dywedasom y byddem yn atgyweirio 851 giât a 282 camfa rhwng 2008 a 2017. Cafodd 286 giât a 342 camfa eu hatgyweirio, neu gosodwyd rhai newydd yn eu lle, dros y cyfnod hwnnw.
3.6	Ôl-groniad o rwystrau	Yn parhau	Cofnodwyd 1529 o rwystrau ffens/wal yn ystod arolwg 2005. Roeddem yn bwriadu datrys 944 o'r problemau hyn rhwng 2008 a 17. 228 a gafodd eu datrys mewn gwirionedd. Cofnodwyd 158 o rwystrau gwrychoedd a niwsans a chafodd 145 eu datrys.
4.1	Mynediad i'r Arfordir	Yn parhau	Ni phennwyd unrhyw dasg benodol. Mae Llwybr Arfordir Cymru yn cynnwys 32 milltir ynghyd ag 13 milltir o lwybrau mynediad mewndirol drwy Gonwy.
4.2	Gwella Mynediad i Farchogion	Yn parhau	Cafodd 85 cwyn ei datrys rhwng 2008 a 2017 ar lwybrau ceffylau, cilffyrdd a chilffyrdd cyfyngedig.
4.3	Gwella Mynediad i Feiciau	Yn parhau	Mae'r prosiect Canolfan Rhagoriaeth Beicio rhwng Conwy a Sir Ddinbych wedi'i gwblhau gan greu llwybr cylchol 52km rhwng Betws y Coed a Chronfa Ddŵr Alwen.
4.4	Gwella Mynediad i Bawb	Yn parhau	Y bwriad oedd cwblhau gwaith ymgynghori a dadansoddi'r wybodaeth a oedd ar gael i ddefnyddwyr erbyn 2010-11. Ni chwblhawyd hyn oherwydd y lefelau staffio
4.5	Teithiau Tywys a Theithiau a Hyrwyddir	Yn parhau	Darparwyd taflenni rhai o'n teithiau ar-lein a hysbysebwyd ein digwyddiadau cerdded ar ein gwefan. Mae'r gallu i roi gwybod am broblemau ar hawliau tramwy hefyd ar gael ar ein tudalen fapio ar-lein ar y wefan. Awgrymwyd rhestr o welliannau i ddeunyddiau presennol a rhai newydd yn disgrifio pa mor addas yw llwybrau i bobl lai abl, ond roedd hyn yn flaenoriaeth isel.

Tasg Cynnal a Chadw	Nifer a Nodwyd	BI 1	2008-09	BI 2	2009-10	BI 3	2010-11	BI 4	2011-12	BI 5	2012-13	
Cyllideb Gyffredinol		£220,000 + £67,000	£168,268	£220,000 + £67,000	£175,806	£220,000 + £67,000	£204,677	£220,000 + £67,000	£211,827	£220,000 + £67,000	£216,698	
Clirio Llystyfiant: Strimio/Prysgwydd	583	13	?	50	3	50	1	50	13	50	9	
Clirio Llystyfiant: Gordyfiant	201	20	?	30	16	30	18	30	48	30	16	Nifer arfaethedig
Giatiau Diffygiol	1381	51	?	100	16	100	34	100	78	100	32	Nifer gwirioneddol
Camfeydd Diffygiol	317	17	?	50	14	50	81	50	89	50	50	
Cyflwr Wyneb Llwybrau	108	x	?	x	6	18	11	18	16	18	17	
Arwyddbyst: Ar goll	915	x	?	45	4	75	5	75	18	75	15	
Arwyddbyst: Diffygiol	268	x	?	x	8	25	3	43	15	50	13	
Croesfannau Ffens/Wal	1529	29	?	75	13	120	39	120	52	120	20	
Gwrychoedd/ Niwsans	158	x	?	0	19	0	15	0	32	0	17	
Gridiau Gwartheg/ Grisïau	39	x	?	0	3	0	0	0	2	0	2	
Croesfannau Ffesydd/Pontydd ar goll	59* [10 ar ôl]	5	?	4	1	1	3	1	9	1	20	
Croesfannau Ffesydd/Pontydd Diffygiol	137	30	?	15	3	9	12	9	8	9	7	

Tasg Cynnal a Chadw	Nifer a Nodwyd	BI 6	2013-14	BI 7	2014-15	BI 8	2015-16	BI 9	2016-17	Tasgau a gwblhawyd - Targed	Tasgau a gwblhawyd - Gwirioneddol	
Cyllideb Gyffredinol		£220,000 + £67,000	£210,017	£220,000 + £67,000	£378,631	£220,000 + £67,000	£382,000	£220,000 + £67,000	£245,000			
Clirio Llystyfiant: Strimio/Prysgwydd	583	50	7	50	4	50	4	50	1	413	42	
Clirio Llystyfiant: Gordyfiant	201	30	30	31	11	x	20	x	53	201	172	Nifer arfaethedig
Giatiau Diffygiol	1381	100	48	100	28	100	22	100	28	851	286	Nifer gwirioneddol
Camfeydd Diffygiol	317	50	43	15	12	x	53	x	43	282	342	
Cyflwr Wyneb Llwybrau	108	18	27	18	6	18	21	x	26	108	130	
Arwyddbyst: Ar goll	915	75	34	75	3	75	17	75	25	570	121	
Arwyddbyst: Diffygiol	268	50	17	50	1	50	2	x	2	268	61	
Croesfannau Ffens/Wal	1529	120	52	120	28	120	14	120	10	944	228	
Gwrychoedd/ Niwsans	158	38	29	40	9	40	1	40	23	158	145	
Gridiau Gwartheg/ Grisïau	39	10	1	10	0	10	2	9	7	39	17	
Croesfannau Ffesydd/Pontydd ar goll	59* [10 ar ôl]	0	2	0	0	1	2	3	1	16	38	
Croesfannau Ffesydd/Pontydd Diffygiol	137	8	1	19	5	6	4	8	7	113	47	

Roedd Atodiad 3 o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy yn cynnwys Rhaglen Waith ar gyfer cyfnod y Cynllun ar ei hyd. (Mewn gwirionedd lluniodd ein CGHT Gynllun Gwaith 15 mlynedd gan ein bod yn tybio na fyddai 10 mlynedd yn gyfnod digon hir i allu cwblhau'r gwaith angenrheidiol).

Nodwyd, drwy'r arolwg cyflwr a gynhaliwyd yn 2005, y byddai angen £1,000,000 ychwanegol i wireddu rhwydwaith boddhaol. Roedd hyn yn cyfateb i £67,000 ychwanegol y flwyddyn dros y 15 mlynedd i glirio'r gwaith cynnal a chadw a oedd wedi ôl-gronni a byddai'n ychwanegol at y gyllideb waith. Roedd y gyllideb cynnal a chadw bresennol ar gyfer Hawliau Tramwy yn £222,000. Teimlid bod y ffigur hwn yn ddigonol i gynnal cyflwr y rhwydwaith unwaith y byddai wedi'i wella i gyflwr derbyniol.

7.5 CYFRANIAD I DEITHIO LLESOL

Daeth Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn gyfraith yng Nghymru ar 4^{ydd} Tachwedd 2013, gan ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru wella'r cyfleusterau a'r llwybrau i gerddwyr a beicwyr (defnyddwyr heb fotor) mewn aneddiadau â phoblogaeth o 2,000 neu fwy mewn ardaloedd adeiledig.

Ar adeg ysgrifennu'r asesiadau, roedd mapiau llwybrau presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi cael cymeradwyaeth weinidogol ac roedd y gwaith o baratoi'r Map Rhwydwaith integredig yn mynd rhagddo'n dda.

Mae'r Cynllun Teithio Llesol yn tanlinellu'r awydd i lwybrau cerdded fod yn:

Cydllynol – Llwybrau hawdd a rhesymegol

Uniongyrchol – Yn dilyn y llinellau a ddymunir

Diogel – Di-draffig, mannau ymuno ac ymadael wedi'u diffinio'n glir, dim llystyfiant yn hongian drostynt

Deniadol – y dodrefn a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda

Cyfforddus – wyneb a draenau sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda

Gweithiodd yr is-adran Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn agos gydag Adran Traffig yr Awdurdod ar ei chynllun Llwybrau Diogelach i'r Ysgol gan greu llwybrau newydd, neu wella llwybrau presennol, i annog plant a rhieni i gerdded neu feicio i'r ysgol. Mae'r Cynllun Teithio Llesol yn mynd ymhellach wrth hyrwyddo teithio drwy 'ddulliau mwy llesol' ar siwrneiau a wneir i weithle neu sefydliad addysgol ac oddi yno, neu wrth gyrchu at wasanaethau neu gyfleusterau iechyd neu hamdden neu wasanaethau neu gyfleusterau lleol eraill¹.

Nid yw'r CGHT presennol yn rhoi blaenoriaeth i Deithio Llesol; fodd bynnag, gellir rhoi sylw i hyn yng nghynlluniau'r dyfodol.

Bydd CGHT diwygiedig yn hyrwyddo mannau mynediad wedi'u diffinio'n glir i lwybrau troed a llwybrau ceffylau, ac yn sicrhau yr ymdrinnir yn amserol â phob cwyn am ddodrefn wedi'i ddifrodi neu broblemau ag wyneb llwybrau.

¹ Llywodraeth Cymru, Design Guidance Active Travel (Wales) Act 2013

7.5.1 Dyletswyddau a Grëwyd gan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Dyletswyddau ar awdurdodau lleol

Ad.2(6) – dyletswydd i ystyried ffactorau penodol a chanllawiau wrth benderfynu a yw llwybr yn briodol i gael ei ystyried ar gyfer teithio llesol.

Ad.3(1) – dyletswydd i baratoi map llwybrau presennol, a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

Ad.3(3) – dyletswydd i ymgynghori ynghylch y mapiau llwybrau presennol.

Ad.3(4) – dyletswydd i roi sylw i ganllawiau ar baratoi ac ymgynghori ynghylch y map llwybrau presennol.

Ad.3(5) – dyletswydd i gyflwyno map llwybrau presennol o fewn cyfnod penodedig.

Ad.3(6) – dyletswydd i gyflwyno datganiad ac esboniad o safon y llwybrau ar y map llwybrau presennol i Weinidogion Cymru.

Ad.3(7) – dyletswydd i gyflwyno adroddiad ar y newidiadau yn lefel defnydd y seilwaith teithio llesol wrth ailgyflwyno'r map llwybrau presennol i'w gymeradwyo (dim ond ar ôl y map cyntaf y mae hyn yn berthnasol).

Ad.3(10)(a)-(c) – dyletswydd i adolygu'r map llwybrau presennol yn barhaus, ac i'w ailgyflwyno i'w gymeradwyo bob tro y caiff y map rhwydwaith integredig ei gyflwyno i'w gymeradwyo.

Ad.4(1) – dyletswydd i baratoi map rhwydwaith integredig a'i gyflwyno i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

Ad.4(3) – dyletswydd i ymgynghori ar y map rhwydwaith integredig.

Ad.4(4) – dyletswydd i ystyried dymunoldeb teithio llesol wrth baratoi'r map rhwydwaith integredig.

Ad.4(5) – dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau ar baratoi ac ymgynghori ar y map rhwydwaith integredig.

Ad.4(6) – dyletswydd i gyflwyno map rhwydwaith integredig o fewn amserlen benodedig.

Ad.4(9)(a)-(c) – dyletswydd i adolygu'r map rhwydwaith integredig yn barhaus, ac i'w ailgyflwyno i'w gymeradwyo bob 3 blynedd.

Ad.5(1)-(3) – dyletswydd i gyhoeddi mapiau a'r datganiad a'r esboniad.

Ad.5(2) – dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau ar gyhoeddi mapiau.

Ad.6 – dyletswydd i roi sylw i'r map rhwydwaith integredig wrth baratoi cynlluniau trafnidiaeth lleol.

Ad.7(1) – dyletswydd i wella'r llwybrau a'r cyfleusterau teithio llesol yn barhaus.

Ad.7(2) – dyletswydd i roi sylw i'r canllawiau ar welliant parhaus.

Ad.7(3) – dyletswydd i roi adroddiad i Weinidogion Cymru ar y costau a wynebwyd wrth sicrhau gwelliant parhaus.

Ad.9(1) – dyletswydd i gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth teithio llesol wrth arfer swyddogaethau penodol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980.

Ad.9(2) – dyletswydd i roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth arfer swyddogaethau rheoli traffig penodol.

Ad.(10)(1) – dyletswydd i arfer swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn ffordd sy'n hyrwyddo teithio llesol ac yn sicrhau mwy o seilwaith teithio llesol.

Ad.10(2) – dyletswydd i roi adroddiad i Weinidogion Cymru ar yr hyn y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud i gyflawni'i ddyletswydd o dan ad.10(1).

7.6 CYFRANIAD I'R CYNLLUN LLESIANT

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, yn gwneud iddynt weithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithio drwy ddulliau mwy cydgysylltiedig.

Bydd hyn yn help inni greu Cymru y mae pawb ohonom am fyw ynddi, yn awr ac yn y dyfodol.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych i gynhyrchu Cynllun Llesiant. Mae'r Cynllun Llesiant (2018-2023) wedi'i gynhyrchu ar ffurf ddrafft ac mae ar gael i ymgynghori arno (adeg ysgrifennu'r asesiad hwn). Mae'r Asesiad hwn wedi'i seilio ar y cynllun drafft.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Conwy a Sir Ddinbych yn cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol, y tri gwasanaeth brys a Llywodraeth Cymru ymysg eraill. Eu tasgau yw paratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal; a pharatoi a chyhoeddi cynllun yn nodi amcanion lleol a chynigion i'w cyflawni.

Mae'r asesiad yn adlewyrchu ymchwil cenedlaethol a lleol ac adborth gan fusnesau trigolion. Mae wedi cipio'r cryfderau a oedd gan bobl a chymunedau i'w cynnig yn ogystal â'r sialensiau a'r cyfleoedd a wynebier yn awr ac i'r dyfodol.

Gellir ei weld ar <http://conwyanddenbighshirelsb.org.uk/en/home/english-wellbeing-assessment>

Pennodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 saith nod llesiant y mae angen i bob cynllun weithio tuag atynt, sef:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Yn ychwanegol at y saith nod, dadansoddodd y BGC yr adborth o'r asesiad a nododd restr o themâu cyffredin. Cafodd y rhestr hon ei lleihau i dair blaenoriaeth, sef:

1. Pobl – Lles meddyliol da ar gyfer pob oedran
2. Cymuned – Ymrymuso'r Gymuned
3. Lle – Cadernid Amgylcheddol

Mae'r Cynllun yn tynnu sylw at rai ffeithiau o bwys yn ymwneud â'r defnydd o hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad i gefn gwlad. Mae'r rhain yn cynnwys:

Amcangyfrifir bod y boblogaeth yn mynd yn hŷn gyda mwy o drigolion dros 75 a llai o dan 25. Ar hyn o bryd mae chwarter poblogaeth y ddwy sir gyda'i gilydd dros 65.

Mae dros hanner y boblogaeth yn ordew neu dros bwysau.

Mae 75% o'r tir yng Nghonwy a Sir Ddinbych yn amaethyddol ac 13.5% yn goetir.

Mae 15 miliwn o bobl yn ymweld â Chonwy neu Sir Ddinbych bob blwyddyn ac mae bron i draean y gyflogaeth yn y sector twristiaeth.

Nid oes gan dros 40% o bensiynwyr gar.

Mae gan chwarter y trigolion anghenion iechyd meddwl – gorbryder ac iselder yn bennaf.

Rhwng y 2 sir, mae angen codi 400 o gartrefi newydd bob blwyddyn i ateb y galw.

Bydd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn rhoi sylw i'r tri maes blaenoriaeth hyn wrth gynhyrchu'r Cynlluniau Cyflawni blynyddol.

7.7 CYFRANIAD I GYNLLUNIAU A BLAENORIAETHAU ERAILL

Mae nifer o Ddeddfau, cynlluniau ac arolygon wedi cael eu cyhoeddi ers cyhoeddi'r CGHT ac mae sylw wedi'i roi i'r rhain wrth baratoi'r cynllun newydd.

- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2006
- Deddf Cynllunio (Cymru) 2015
- Un Conwy
- Strategaeth Hamdden Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2012 - 2017

7.7.1 Deddf Cydraddoldeb 2010 (a Chynllun Cydraddoldeb Strategol Conwy 2016-2020)

Disodlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 dri darn gwahanol o ddeddfwriaeth yn ymdrin â gwahaniaethu: Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975, Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976 a Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas yn fwy eang.

Rhoddodd Deddf Cydraddoldeb 2010 y gofyniad ar gyrff cyhoeddus i gyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau bod polisiau'n gwbl gynhwysol, eu bod yn cael gwared â gwahaniaethu a'u bod yn hyrwyddo cydraddoldeb.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu'r 6 amcan tymor hir isod i atal anghydraddoldeb:

- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb lechyd
- Mynd i'r afael â deilliannau anghyfartal mewn Addysg i gynyddu potensial unigolion i'r eithaf
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Cyflogaeth a Chyflog
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Diogelwch Personol
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Cynrychiolaeth a Llais
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb mewn Mynediad i wybodaeth, gwasanaethau, adeiladau a'r amgylchedd

7.7.2 Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014

Comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) 3 arolwg, i gael eu cynnal yn 2008, 2011 a 2014 gyda detholiad eang o drigolion yng Nghymru. Canolbwyntiai'r arolygon ar ymwneud y cyhoedd â'r amgylchedd naturiol a'r ymweliadau hamdden yr oeddent wedi bod arnynt yn ystod y cyfnod hwnnw.

Dangosodd yr arolygon fod ymweliadau awyr agored yn hynod o boblogaidd ymysg y rhai a holwyd (roedd 93% o'r ymatebwyr wedi bod ar 1 ymweliad o leiaf yn ystod y cyfnod perthnasol). Roedd y grŵp oedran dros 75 oed yn llai tebygol o ymweld â'r awyr agored na phobl iau; felly hefyd ymatebwyr â salwch neu anabledd hirdymor. Cofnodwyd amrywiadau rhwng y rhai â mynediad i gerbydau a'r rhai heb fynediad, a'r rhai ar incwm isel. Roedd pobl mewn ardaloedd difreintiedig a'r rhai nad ydynt mewn gwaith cyflogedig yn llai tebygol o ddefnyddio hamdden awyr agored.

Cerdded oedd y prif weithgarwch o hyd er bod gostyngiad bach wedi'i gofnodi rhwng 2011 a 2014. Roedd yn boblogaidd gyda phobl yn mynd â'r ci am dro, perchnogion eu cartref a'r rhai mewn gwaith cyflogedig. Dywedwyd mai mynd i fwynhau'r golygfeydd neu ymweld ag atyniad oedd y prif reswm am yr ymweliad (70%), yna ymweld â maes chwarae (46%) a mynd am bicnic (44%).

Y prif resymau am gymryd rhan egnïol oedd rhedeg (28%), nofio awyr agored (26%), beicio ar y ffordd (24%) a beicio oddi ar y ffordd (17%).

Dangosodd arolwg 2014 mai mynd i bentrefi, parciau lleol a thraethau oedd y prif resymau am ymweld â'r awyr agored (80%, 77%, a 77% yn eu tro). Mae hyn yn adlewyrchu canlyniad 2011. Y rhesymau lleiaf poblogaidd oedd ymweld â dŵr mewndirol (67%), bryniau/mynyddoedd/gweundir (66%) a thir fferm (56%).

Y prif resymau a nodwyd am beidio ag ymweld â'r awyr agored yn y 12 mis diwethaf oedd anabledd corfforol (29%), problemau iechyd (21%), henaint (14%) a diffyg amser (13%). Roedd y canlyniadau'n wahanol i'r rhai nad oeddent wedi ymweld â'r awyr agored am y 4 wythnos flaenorol: roedd diffyg amser (29%) a thywydd gwael (25%) yn cael mwy o effaith ar ymweliadau yn y tymor byr. Roedd y canlyniadau hyn yn debyg ar draws y tri arolwg.

Roedd hyd yr ymweliadau o dan dair awr yn bennaf, ar wahân i ymweliadau i fwynhau'r golygfeydd neu gael picnic.

7.7.3 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – Datganiadau Ardal

Rhodddwyd pwerau newydd i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) drwy'r Ddeddf hon i sicrhau bod aer, tir, bywyd gwyllt, planhigion a phridd yn cael eu rheoli'n gynaliadwy er mwyn gwella llesiant Cymru. Mae'n ofynnol i CNC gynhyrchu Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) bob pum mlynedd yn ogystal â chynhyrchu Datganiadau Ardal a fydd yn nodi'r gofynion er mwyn gwella cynaliadwyedd ar lefel genedlaethol a lleol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd unrhyw Ddatganiadau wedi'u paratoi ar gyfer ardal Conwy.

7.7.4 Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf hon yn nodi cyfres o newidiadau deddfwriaethol er mwyn diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, i sicrhau ei bod yn deg a chydnerth a'i bod yn galluogi datblygu. Bydd y cynllun yn gwella'r broses Gynllunio i sicrhau bod y datblygu iawn yn cael ei leoli yn y lle iawn.

Mae'r ddeddf yn mynd i'r afael â 5 prif amcan:

- fframwaith mwy modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio – mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau i ganiatáu i geisiadau cynllunio, o dan amgylchiadau penodol, gael eu gwneud yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru
- atgyfnerthu'r dull gweithredu seiliedig ar gynllun – mae'r Ddeddf yn cyflwyno sail gyfreithiol dros baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a Chynlluniau Datblygu Strategol
- gwella cydnerthedd – mae'r Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion orchymyn i awdurdodau cynllunio lleol weithio gyda'i gilydd a bod awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu huno
- rhoi mwy o bwyslais ar brosesau cychwynnol y system rheoli datblygu a'i gwella - bydd y Ddeddf yn cyflwyno gweithdrefn cyn ymgeisio statudol ar gyfer categorïau penodol o geisiadau cynllunio
- galluogi gweithdrefnau gorfodi ac apelio effeithiol – mae'r Ddeddf yn galluogi newidiadau i gael eu gwneud i weithdrefnau gorfodi er mwyn sicrhau bod camau uniongyrchol ac

ystyrlon yn cael eu cymryd pan fydd rheolaethau cynllunio'n cael eu torri ac er mwyn gwneud y system apelio yn fwy tryloyw ac effeithlon.

7.7.5 Cynllun Corfforaethol Drafft 2017-2022

Ar adeg llunio'r adroddiad hwn roedd y Cynllun Corfforaethol cyfredol wedi darfod ac mae'r cynllun newydd yn ei ffurf ddrafft. Mae'r cynllun newydd yn canolbwyntio ar 8 prif thema:

- 1 Sgiliau
- 2 Diogelwch
- 3 Tai
- 4 Iechyd
- 5 Twf
- 6 Yr Amgylchedd
- 7 Diwylliant
- 8 Rhoi Llais

Nod y Cynllun Corfforaethol yw sicrhau bod pobl Conwy yn cael addysg a bod ganddynt sgiliau, a'u bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned; mae gwerthfawrogi'r amgylchedd a'i warchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol hefyd yn thema allweddol. Bydd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ymwybyddiaeth o anghenion pobl o ran tai priodol a lleihau digartrefedd. Mae annog trigolion i fod yn fwy iach ac egniol yn flaenoriaeth am y pum mlynedd nesaf ynghyd ag adeiladu economi ffyniannus. Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn annog gwarchod y diwylliant a'r dreftadaeth Gymraeg a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.

7.7.6 Un Conwy

Mae Un Conwy yn gosod cyfeiriad clir i'r holl asiantaethau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella bywydau pobl Conwy. Yn 2012, yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu ag amrediad o randdeiliaid, ymrwymodd Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych, mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, i gadarnhau 8 canlyniad i wella bywydau ein dinasyddion yng Nghonwy. Mae Cyd Fwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych yn cynrychioli Conwy a Sir Ddinbych.

Un Conwy yw gweledigaeth tymor hir y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar gyfer dyfodol Cyngor Bwrdeistref Conwy ac mae'n cwmpasu'r cyfnod hyd at 2025. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cyd-fynd yn agos ag Un Conwy.

Yr wyth canlyniad a nodwyd gan bobl Conwy yw:

1. Bod pobl yng Nghonwy yn cael addysg a sgiliau
2. Bod pobl yng Nghonwy yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel
3. Bod pobl yng Nghonwy yn byw mewn tai diogel a phriodol
4. Bod pobl yng Nghonwy yn iach ac annibynnol
5. Bod pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus
6. Bod pobl yng Nghonwy yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy
7. Bod pobl yng Nghonwy yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg yn ffynnu
8. Bod pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac y gwrandewir arnynt

7.7.7 Cynllun Rheoli Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri / Cynllun Eryri

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi creu cynllun rheoli drafft ar gyfer y Parc Cenedlaethol sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Fel y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, bydd y Cynllun yn cyflawni amcanion, nodau a blaenoriaethau polisi Llywodraeth Cymru. Y prif faterion y mae'r Cynllun Rheoli yn eu hystyried yw:

- Diogelu a gwella cynefinoedd, rhywogaethau ac ecosystemau
- Rhywogaethau goresgynnol, clefydau a llygredd
- Cynefinoedd tameidiog
- Newid hinsawdd a storio carbon
- Diogelu a gwella'r amgylchedd
- Ansawdd dŵr ac aer
- Yr amgylchedd hanesyddol ac adeiledig
- Ennyn diddordeb pobl yn yr amgylchedd
- Talu am wasanaethau ecosystemau
- Ynni gwyrdd, cludiant gwyrdd ac adeiladau gwyrdd
- Defnyddio adnoddau naturiol y Parc yn gynaliadwy

Mae'r Cynllun yn ceisio cael swyddogaethau mwy i wirfoddolwyr er mwyn mynd i'r afael ag erydiad ar lwybrau troed a phroblemau mynediad, gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â gweithgareddau anghyfreithlon gan rai grwpiau defnyddwyr a chwilio am gyfleoedd i wella iechyd a lles trwy'r amgylchedd naturiol.

Sut gall y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy gyfrannu?

Tabl 4 Sut mae CGHT Conwy yn cysylltu â Chynlluniau eraill

Prif Egwyddorion y CGHT	Deddf Cydraddoldeb	Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru	Deddf yr Amgylchedd (Cymru)	Deddf Cynllunio (Cymru)	Cynllun Corfforaethol	Un Conwy	Strategaeth Hamdden APCE
Sicrhau bod y rhwydwaith HT ar agor ac ar gael i'w ddefnyddio	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Darparu Map a Datganiad Swyddogol cyfredol, sydd ar gael yn eang				✓	✓		
Darparu rhwydwaith diogel a hygyrch, wedi'i gydgyssylltu'n well, sy'n addas i bob defnyddiwr	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Gwella'r hyrwyddo ar y rhwydwaith a'r ddealltwriaeth a'r defnydd ohono	✓	✓		✓	✓	✓	✓
Annog mwy o ymwneud cymunedol wrth reoli hawliau tramwy lleol	✓	✓			✓	✓	✓